O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2733 (Cy. 295)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pont Caersŵs, Caersŵs, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *14 Tachwedd 2011*

Yn dod i rym *26 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pont Caersŵs, Caersŵs, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18.00 o'r gloch ar 26 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd wrth Bont Caersŵs, yn Sir Powys, sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4558, (Severn Street), ar ochr ogleddol y bont, hyd at bwynt 440 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r A489.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.